**CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SION JONES**

**Cwestiwn**

'Be mae'r Arweinydd yn ei wneud i sicrhau bod contractau sero awr yn Cyngor Gwynedd yn cael ei atal?'

**Ateb y Cynghorydd Dyfed Edwards:-**

"Mae contractau "sero awr", neu gytundebau dim oriau, yn fater sydd wedi derbyn cryn sylw o fewn a thu hwnt i'r Cyngor yn ddiweddar. Mae yna sawl un sy'n camddehongli cytundebau dim oriau i gynnwys trefniadau i gyflogi gweithwyr achlysurol ac mae'n bwysig i mi nodi yn y lle cyntaf beth yw'r gwahaniaeth rhwng y naill drefniant a'r llall.

Yn ymarferol, mae gweithiwr sydd ar gytundeb dim oriau yn gweithio oriau yn rheolaidd ond heb sicrwydd o'r nifer oriau sydd i'w gweithio o un wythnos i'r nesaf.  Mae hyn yn wahanol i drefniant gwaith achlysurol ple bo unigolion yn derbyn cynnig o waith pan fo dyweder aelod parhaol o staff yn sâl/ar ei wyliau neu pan fo angen staff ychwanegol ar gyfer digwyddiad penodol. Mae ACAS (Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) ei hun yn cydnabod y gwahaniaeth yma rhwng trefniant gwirioneddol achlysurol a chytundeb dim oriau.

Mae gan y Cyngor hwn aelodau o staff a gyflogir ar gytundebau dim oriau ac maent i gyd yn cael eu cyflogi o fewn y maes gofal. Trefniant hanesyddol yw hwn a 'does yr un gweithiwr newydd wedi'i benodi ar sail y math yma o gytundeb ers dros tair blynedd bellach.

Yn 2011/12, roedd yna 338 o weithwyr y Cyngor ar gytundebau dim oriau. Mae'r nifer hwn wedi gostwng i 81 erbyn Rhagfyr y llynedd ac hynny yn sgil trafodaethau hefo gweithwyr unigol arweiniodd at nifer fawr ohonynt yn derbyn cytundeb oriau gwaith penodol. Bydd y nifer o'r math yma o gontractau yn gostwng ymhellach yn yr wythnosau nesaf yn sgil newidiadau a gytunwyd arnynt hefo carfan o weithwyr cefnogol yn ddiweddar.

Mae'r nod o gael gwared yn llwyr o gytundebau dim oriau yn un y mae'r Cyngor o ddifrif ynglyn ag o. Mae'r gostyngiad sylweddol yn y nifer a gyflogir ar y fath gontractau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn brawf diamheuol o hynny".

**CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD AERON M JONES**

**Cwestiwn**

"Gyda nifer helaeth yng Ngwynedd sydd mewn busnes neu'n rhedeg busnes bychain, pa mor llwyddiannus mae'r Cyngor wedi bod wrth weithredu'r Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol o ran cadw gwariant gan y Cyngor gyda chontractwyr lleol?"

**Ateb y Cynghorydd Mandy Williams-Davies:-**

"Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bwysig bod y Cyngor yn deall bod nifer o reolau cyfreithiol a statudol o ran ein trefniadau tendro a bod hynny yn cyfyngu ar y graddau yr ydym yn medru dyfarnu cytundebau i gwmnïau lleol. Mae'n rhaid dangos yn glir bod ein prosesau yn agored a thryloyw ac yn sicr gwerth am arian. Fodd bynnag, amcan y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yw uchafu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar ein perfformiad yn y maes yn y fersiwn o'r Cynllun Strategol sydd gerbron y Cyngor heddiw, sef:-

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| CAFF06d Canran gwariant y Cyngor efo busnesau lleol | 40.35 | 40.33 | 40.42 |

Mae dau bwynt arall i'w wneud yma. Yn gyntaf, mae'r canrannau hyn yn cymharu'n ffafriol gyda siroedd eraill yng Nghymru. Yn ail, nid yw'r ffigwr hwn o reidrwydd yn rhoi darlun cywir o'r budd i'r sir gan bod y diffiniad o fusnes lleol yn dibynnu ar gyfeiriad pencadlys y cwmni; mae nifer o achosion o gwmnïau sydd yn cyflogi ac efo swyddfeydd llai yn sirol lle mae'r pencadlys y tu allan i'r sir ac ni fyddent yn cyfrif tuag at y mesur hwn.

Mae uchelgais y Cyngor i wella hyn ymhellach yn uchel ac, fel y mae'r Cynllun Strategol yn datgan, rydym yn gweithio gyda chwmnïau lleol i'w cynorthwyo i gystadlu am waith ac yn newid ein trefniadau mewnol wrth gyflwyno trefn "rheolaeth categori". Y nod yn y Cynllun Strategol yw bydd cynnydd arwyddocaol yn y nifer o fusnesau sydd â'r ddealltwriaeth a'r gallu i ennill cytundebau'r Cyngor. Mae manylion llawn y prosiect i'w weld ar dudalen 29 y Cynllun Strategol sydd yn rhaglen y Cyngor heddiw."